

Yr Hawl i Ddewis



Diwygio Canabis Meddyginiaethol Cymru

Meddyginiaeth oddi wrth y Fam Ddaear

Cynnwys

P3-4. Trosolwg – Yr Hawl i Ddewis

P5-6. Y Claf – amlinelliad o’r cynllun

P7. Y Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol -

P8. Plismona

P9. Diwydiant

P10. Casgliad

Cyfeiriadau



YR HAWL I DDEWIS

Diwygio Cannabis Meddyginiaethol Cymru: Dydd Sul, 6 Ionawr, 2019- Cynnig diwygio

YR HAWL I DDEWIS - Diwygio Cannabis Meddyginiaethol Cymru

Er gwaethaf y newid diweddar i ddeddfwriaeth nodedig 1 Tachwedd 2018, a'i gwnaeth yn gyfreithlon i arbenigwyr cofrestredig â'r GMC ragnodi cynnyrch sy'n deillio o ganabis i gleifion sy'n cymhwyso i amodau arbennig; nid yw cannabis ar gael o hyd i'r mwyafrif o gleifion sy'n parhau i fethu â chael cannabis yn gyfreithlon. Mae nifer fach iawn o rhagysgrifau Cannabis wedi bod erbyn hyn ac maent wedi bod yn aneffeithiol, gan achosi dioddefaint, poen neu farwolaeth yn ddiangen i nifer o oedolion a phlant.

Mae pob un person yng Nghymru'n unigryw, yn enwedig o ran gofynion iechyd. Byddai Rhaglen Hawl i Ddewis Cannabis Meddyginiaethol Cymru yn sicrhau ein bod ni oll yn cael ei trin mewn modd unigryw gan ganatau'r hawl i ni benderfynu drosom ni'n hunain, drwy chwarae'r brif rôl ynghylch sut yr ydym am i'n gyda'n gofal iechyd gael ei weinyddu. Yn y gyfundrefn bresennol, mae pob un ohonom yn cael ein trin fel pe byddem ar gludfelt, mewn dull "un maint i bawb", yn derbyn yr un gofal â phawb arall sy'n dioddef o'r un salwch. Fel arfer mae'r broses hon yn cynnwys dilyn cyfarwyddiadau 'ch clinigwr a chymryd y cyffuriau a ragnodir i chi, ac yna'n aml, caiff cyffuriau pellach eu rhagnodi hefyd i ymdopi â sgil effeithiau'r cyffuriau cychwynol a ragnodwyd.

Mae nifer dirifedi o Gymry wedi troi'u cefnau ar yr ymagwedd fferyllol hon sy'n aml yn frith o sgil effeithiau, gan beryglu cael eu herlyn a'u herlid a wynebu hyd at 14 mlynedd yn y carchar, am iddynt wneud penderfyniad gwybodus annibynnol am eu hiechyd sef dychwelyd at feddyginiaeth fwyaf hynafol a thraddodiadol dynoliaeth; cannabis llysiuol naturiol. Mae hyn yn aml yn digwydd ar ôl i bobl fod wedi dioddef triniaethau sydd un ai'n annioddefol neu'n fygythiol i'w bywyd neu o sgil effeithiau ddaw o ddulliau fferyllol aneffeithiol, ac mewn rhai achosion, i reoli eu halcoholiaeth.

Rhaid i'r risg hwn o wneud ein dewisiadau iechyd yn drosedd stopio!

Rhaid i'r gwahaniaethu cymdeithasol hwn am wneud ein dewis annibynnol stopio!

Rhaid gweithredu a pharchu annibyniaeth, cyfranogiad a dewis y claf.

Ni ddylai cannabis llysiuol fod y dewis olaf, yn hytrach fe ddylai fod ar gael fel dewis cyntaf.

Yn sgil papurau ymchwil anecdotaidd a meddygol sydd ar gael yn fyd-eang am fanteision, niwed a risg cannabis, mae pobl yn llawer yn fwy hyddysg am eu materion iechyd eu hunain nac erioed o'r blaen gan sylweddoli fod yna ffyrdd eraill yn hytrach na'r protocol fferyllol.

Gwelwyd fod rhai achosion diweddar eisoes wedi dangos fod rhagnodi cynhyrchion sy'n deillio o ganabis wedi peri sgil effeithiau annioddefol i rai cleifion ac nad yw hynny'n cael ei achosi, yn gyffredinol, gan ganabis llysiuol naturiol, felly dylai dewis y claf fod yn ddewis y claf!

Felly, y mae DCMC yn cynnig y dylem NI GAEL YR HAWL I DDEWIS beth yr ydym NI yn ei roi yn EIN cyrff NI. Ni ddylai'r penderfyniad hwn berthyn i neb arall, a dylai barhau i fod yn hawl unigol pob person unigol i benderfynu'n annibynnol droso'i hun sut y mae'n rheoli ei iechyd, llesiant a

hapusrwydd ei hun. Mewn cymdeithas rydd a democrataidd, ni ddylai dewisiadau iechyd personol gael eu hunbenaethau gan boen troseddu, diweithdra, dadfeddiant a gwahaniaethu.

Y CLAF

Er mwyn cymhwyso ar gyfer Cynllun Diwygio Cannabis Meddyginiaethol Cymru, byddai angen i unigolion gael llythyr oddi wrth weithiwr iechyd proffesiynol, yn dynodi'r cyflwr y mae'r unigolyn yn ceisio ei reoli a chadarnhau penderfyniad y claf i roi cynnig ar feddyginiaeth cannabis llysieuol traddodiadol i reoli ei gyflwr/ei gyflyrau iechyd.

Mae llawer o bobl wedi canfod fod y broses o dyfu eu cannabis eu hunain a pharatoi eu meddyginiaethau iechyd eu hunain yn eu hymrymuso gan hefyd ganfod ei fod wedi hwyluso gwelliant yn eu cyflwr iechyd, gan arwain at yr hawl i dyfu yn cael ei ystyried fel agwedd hanfodol o'n hawl i ddewis.

Dylai person sy'n rheoli ei iechyd ei hun, neu un ei anwyliaid gael yr hawl i ddewis rhwng un ai cyffuriau fferyllol modern, nwyddau sy'n deillio o ganabis graddfa feddygol neu feddyginiaethau iechyd cannabis llysieuol, traddodiadol. Yna rhaid i'r claf benderfynu a yw am gael ei feddyginiaeth oddi wrth fferylllydd neu gael y dewis i dyfu ei ganabis ei hun ar gyfer anghenion aelodau'r teulu.

Byddai'r holl bobl sy'n dewis tyfu eu cannabis eu hunain ar eu cyfer nhw eu hunain neu aelod o'r teulu yn ymuno â chynllun "Cofrestru Fy Nhyfu" / "Register My Grow" (eto i'w sefydlu) a bydd yn cyflwyno ei fanylion tyfu unigol a derbyn tystysgrif i ddweud ei fod yn rhan o Gynllun Diwygio Cannabis Meddyginiaethol Cymru. Byddai hwn yn cael ei ddiweddarau gan Heddlu Cymru wrth i bob claf ymuno â'r cynllun.

Ar y sail fod canllawiau dedfrydu cyfredol y llywodraeth yn dynodi fod 9 planhigyn yn cael eu hystyried fel tyfiant personol.

Byddai'r rhaglen hon yn caniatáu'r canlynol:

1. Caniatáu uchafswm o 9 planhigyn cannabis blodeuo am bob person, ar y tro.
2. Caniatáu uchafswm o 9 planhigyn cannabis llysieuol am bob person, ar y tro.
3. Caniatáu uchafswm o 18 eginblanhigyn/toriad am bob person, ar y tro, i alluogi am fethiannau gwreiddio. Mae pwyntiau 1, 2 a 3 yn cyfuno i alluogi a sicrhau cylchdro parhaus o ganabis meddygol (a elwir yn gylch tyfu parhaus) ac yn sicrhau bod digon o gyflenwad ar gyfer y claf.
4. Y rhyddid i wneud olew, pethau bwydadwy a chrynodeiadau i reoli iechyd, llesiant a hapusrwydd, wrth i'r unigolyn bennu beth sy'n briodol iddo fe ei hun neu ei deulu.
5. Dim cyfyngiadau canran THC (mae ymchwil anecdotaidd a meddygol yn dangos y gall lefelau uchel o THC fod yn ofynnol ar gyfer rheoli nifer o fathau o ganser, awtistiaeth, epilepsi, poen cronig a rhagor...).
6. Dim cyfyngiadau lefel CBD (mae ymchwil anecdotaidd a meddygol yn dangos bod amrywiol lefelau CBD yn gallu bod yn ofynnol ar gyfer rheoli llawer o fathau o ganser hormonaidd, cyflyrau llidus, epilepsi, gor-bryder a rhagor...).
7. Llywodraeth Cymru i greu cyflogaeth drwy alluogi ac ariannu sefydlu fferyllfeydd meddygol llysieuol i gyflawni rhagnodau cannabis, yn ogystal â chaniatáu a chynorthwyo clybiau tosturi

cofrestredig preifat nid er elw, ble gall cleifion gwrdd yn ddiogel a manteisio ar wybodaeth a phrofiad aelodau eraill.

8. Mynediad at wybodaeth oddi wrth ddefnyddwyr cannabis eraill profiadol am sut i feddygiaethu gyda cannabis yn y clybiau rhagddywededig nid er elw/tosturi sydd eisoes yn gweithredu er gwaetha'r risg o erlyniad.

9. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu cymorth ariannol sy'n berthnasol i incwm ar gyfer cleifion sy'n dewis tyfu eu planhigion eu hunain, ond sy'n ddiffygiol o ran adnoddau ariannol i ddechrau tyfu, i helpu i dalu am gost yr offer a chost yr ymarfer hwn, rhywbeth a fydd yn y pen draw yn arbed miliynau bob blwyddyn i GIG Cymru.

10. Bydd yna enghreifftiau pan fydd unigolion yn dewis tyfu eu cannabis meddygol eu hunain ond na fyddant yn gallu gwneud hynny'n annibynnol a bod cymorth ffisegol yn ofynnol o bosibl er mwyn gwneud hynny. Yn yr achosion hyn, dylai teulu neu helpwyr yr unigolion hefyd fod yn rhydd rhag y risg o erlyniad.

11. Os yw person o dan 16 mlwydd oed, rhaid i'w rieni fod yn gyfrifol am ddethol pa driniaeth mae eu plentyn yn ei dderbyn, boed yn gyffuriau fferyllol modern neu feddygiaeth cannabis llysiuol traddodiadol.

12. Rhaid i bob oedolyn sy'n penderfynu tyfu ei cannabis ei hun gael mynediad hefyd at labordai profi fforddiadwy os yw'n dymuno hynny, i sicrhau ei fod yn cymryd paratodau cannabis glân a diogel.

13. Pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddai cleifion yn cael eu gadael i ddioddef yn y cyfnod interim. Dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaethau o dan Rhan 1 Adran 6 Deddf GIG Cymru 2006, i alluogi cleifion sydd â gofynion argyfyngus iawn, fel plant ag epilepsi, gael mynediad at driniaethau tramor o ran meddygiaeth cannabis, hyd nes y gellir darparu hyn yng Nghymru.



GWEITHWYR GOFAL IECHYD PROFFESIYNOL

Dylai holl weithwyr proffesiynol gofal iechyd gael eu hail-addysgu'n gyflawn ac yn gywir am fanteision maeth, therapiwtig a meddyginiaethol canabis er mwyn hwyluso rhagnodi. Dylent gael eu hail-addysgu'n gywir am y gwahaniaethau rhwng canabis synthetig, canaboid meddygol a chanabis naturiol, organig, llysieuol. Ni fydd yn anodd cyflawni hyn gan fod yna eisoes gymaint o ymchwil wedi ei wneud mewn gwledydd eraill sy'n llawer yn fwy blaengar ynghylch diwygio canabis nag yw Cymru. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael ar-lein i unrhyw un ei ddarllen.

Bellach mae gan Gymru'r cyfle i arwain diwygiadau canabis meddygol, sy'n parchu hawliau dynol ac annibyniaeth cleifion. Felly dylid dechrau ystyried cydweithio a phrosiectau rhannu gwybodaeth rhwng ein Prifysgolion a chyfleusterau ymchwil, a'r Prifysgolion a chyfleusterau ymchwil ledled y byd sydd eisoes wedi gwneud cynnydd mawr mewn diwygiadau canabis.

Does dim pwynt ailddyfeisio'n olwyn, pan fod pobl yng Nghymru 'n cael eu herlyn, dadfeddiannu, diswyddo, neu hyd yn oed condemnio i boen dianghenraid, dioddefaint, amharch neu farwolaeth.

Rhaid rhoi'r annibyniaeth i ymgynghorwyr, meddygon, nyrsys, llysieuyddion a maethegwyr i ymchwilio'n bersonol, a thrafod, argymhell neu ragnodi canabis llysieuol at ddibenion maethol, meddygol neu therapiwtig, i bobl sy'n dewis rheoli eu hiechyd, llesiant ac hapusrwydd gyda chanabis llysieuol naturiol a chynnyrch sy'n deillio o ganabis.

Reform Cymru

MEDICINE FROM MOTHER EARTH



PLISMONA

Rhaid rhoi annibyniaeth lawn i Heddlu Cymru weithredu disgresiwn yr heddlu a phenderfynu a ydynt am erlyn unrhyw berson a ganfyddwyd yn cydymffurfio â chynllun DCMC er budd y Cyhoedd. Rhaid rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r heddlu a chael chefnogaeth oddi wrth adrannau'r Llywodraeth mewn perthynas â hyn.

Byddai polisi sy'n caniatáu cleifion i dyfu hyd at 9 planhigyn (hyblyg), ymuno â chlybiau cymdeithasol ble y gellir cyd-dyfu cannabis ac o bosibl ei ddefnyddio (fel yn Sbaen, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg) yn parchu hawliau dynol, ostwng cyfraddau trosedd, lleihau'r posibilrwydd o niwed a'r galw ar amser yr heddlu.

Er y bydd yna gost cychwynnol o ran ail-hyfforddi Swyddogion yr Heddlu ac aelodau hŷn am sut i ddelio â phobl yn yr amgylchiadau arbennig hyn a beth i'w wneud os ydynt yn dod ar draws person sy'n arbennig o agored i niwed, yn yr hir dymor, byddai costau cyffredinol rheolaeth yr heddlu yn gorfodi gostyngiad mewn cyfreithiau cannabis, gan felly ryddhau oriau plismona hanfodol yr heddlu.

Er mwyn cadw cofnod o bwy sy'n tyfu ei ganabis meddygol ei hun o dan Gynllun DCMC, byddai cynllun Cofrestru Fy Nhyfu /Register My Grow yn rhannu gwybodaeth â'r Heddlu, wrth i gleifion newydd ymuno â'r cynllun, fel y byddai'r Heddlu yn gwybod pwy sy'n tyfu at eu dibenion iechyd eu hunain ac felly na ddylent gael eu herlyn.

Nid ymgais i gynyddu llwyth gwaith yr Heddlu yw hyn, rhywbeth sydd eisoes wedi ei or-ymestyn a'i dan-ariannu, ond i'r gwrthwyneb. Byddai rhaglen fel hon yn rhyddhau llawer o amser yr heddlu i ganolbwyntio ar droseddu difrifol.

MEDICINE FROM MOTHER EARTH



DIWYDIANT

Rhaid i Gymru gyflwyno canabis/hemp i'r farchnad mewn modd cynyddol drwy beidio â chaniatáu i'r monopoli am ddiwydiant gwerth biliynau o bunnoedd gael ei drosglwyddo i'r cwmnïau fferyllol yn unig. Mae hwn yn ddiwydiant sy'n ddigon mawr i bawb gyfranogi ynddo fel bod yna ddigon i'w rannu, ac mae gan Gymru eisoes lawer o'r isadeiledd gofynnol i dyfu a phrosesu canabis a nwyddau dros ben, e.e. planhigion prosesu biomas.

Rhaid i Gymru greu cyfleoedd cyflogaeth, drwy ei wneud yn bosibl i fusnesau llai gael mynediad at y farchnad hon yn ariannol. Rhaid i Gymru roi'r hawl i ffermwyr canabis meddygol Cymreig i gyflawni'r fferyllfeydd arfaethedig ar gyfer cleifion Cymreig yng Nghymru. Dylid creu'r cyfle i fusnesau bach dyfu a masnachu canabis meddygol, fel bod ganddynt yr un cyfle â chwmnïau rhyngwladol gwerth biliynau, ac felly atal monopoleiddiad.

Ni ddylai cwmnïau sy'n cyflenwi ychwanegion llysieuol naturiol neu nwyddau planhigion organig orfod cadw at yr un rheolau â'r diwydiant fferyllol, oherwydd mae'r cynnyrch llysieuol yn gwbl naturiol heb unrhyw gemegolion wedi eu hychwanegu atynt, ond rhaid gosod proses profi cyflawn a labelu mewn lle ar gyfer pob cynnyrch.

Medicinal Cannabis
Reform Cymru

MEDICINE FROM MOTHER EARTH



Casgliad

Cafodd y cynllun arfaethedig hwn ei ddatblygu ar y cyd gyda chleifion canabis cyfredol y DU, sydd, er gwaetha'r cyfreithiau cyfredol, wedi bod yn rheoli eu hiechyd â chanabis meddygol drwy ei dyfu yn y cartref ac mewn clybiau tosturi. Y gobaith yw y gallai'r cynllun hwn bontio'r gagendor anodd rhwng cleifion canabis meddygol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, Heddlu Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cafodd defnyddwyr canabis meddygol Cymru eu herlyn a'u herlid gan San Steffan am yn rhy hir, a hynny am wneud dewis iechyd sylfaenol i gydnabod a defnyddio manteision therapiwtig canabis llysieuol naturiol.

Dyma'r adeg perffaith i Lywodraeth Cymru wneud safiad i amddiffyn ei phobl!

